Darpariaeth Chwarae Gwyliau'r Haf (5-12 oed)

Sesiynau Chwarae Mynediad Agored

Bydd y cynlluniau chwarae sesiynol canlynol yn cael eu cynnig yn ystod gwyliau'r haf:

• Ysgol Gynradd Llyswerry – Dydd Llun 15 Awst tan ddydd Gwener 26 Awst, 10.00am – 11.59am

• Ysgol Gynradd Milton – Dydd Mercher 10 Awst tan ddydd Gwener 26 Awst, 1.00pm – 2.59pm

• Canolfan Gymunedol Gaer – dydd Mercher 10 Awst tan ddydd Gwener 26 Awst, 10.00am – 11.59am

• Neuadd Gymunedol y Graig – Dydd Mercher 10 Awst tan ddydd Gwener 26 Awst, 1.00pm – 2.59pm

• Canolfan Hope – Dydd Mercher 10fed Awst i Ddydd Gwener 12fed Awst, 10.00am – 11.59am

Rhaid archebu lleoedd ymlaen llaw, ond rhaid I rieni/gofalwyr fod yn bresennol gyda'r waith ar y diwrnod cyntaf I gwblhau'r waith papur angenrheidiol.

Darpariaeth Diwrnod Llawn

Yn ystod gwyliau'r haf, bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnig darpariaeth chwarae diwrnod llawn i blant 5-12 oed, rhwng dydd Mercher 10 Awst 2022 a dydd Gwener 26 Awst 2022.

Sylwch fod YN RHAID archebu lleoedd ar y safleoedd a restrir isod ymlaen llaw. Ni allwn groesawu plant sy'n dod heb gadw lle trwy'r system ymgeisio ar-lein.

Cynigir darpariaeth yn y lleoliadau canlynol rhwng 10am a 3pm:

• Canolfan Byw'n Actif y Betws (dewiswch Hyb y Gogledd ar eich cais)

• Pilgwenlli Capel Crescent (dewiswch Hyb Canolog ar eich cais)

Bydd y ddau safle ar gau ddydd Mercher 3 Awst 2022 ar gyfer Diwrnod Chwarae Cenedlaethol.

Gellir dewis y lleoliad a ffefrir gennych ar y cais, ond ni allwn warantu y bydd hwn ar gael. Os bydd gormod o geisiadau am y ddarpariaeth, bydd lleoedd yn cael eu dyrannu ar sail y cyntaf i'r felin.

Proses Ymgeisio

Mae ceisiadau ar gyfer darpariaeth diwrnod llawn bellach ar gau.

Bydd rhieni/gofalwyr yn derbyn cadarnhad o le eu plentyn trwy e-bost erbyn dydd Mercher 20 Gorffennaf 2022. Ni ddylai unrhyw blentyn sy'n profi symptomau Coronafeirws fynychu'r ddarpariaeth chwarae.